# CANLLAW I SENEDD IEUENCTID CYMRU

## YSGOLION, COLEGAU, GWEITHWYR IEUENCTID, RHIENI A GWARCHEIDWAID

WELSH YOUTH PARLIAMENT

SENEDD IEUENCTID CYMRU

# CYNNWYS

PROFIAD UNIGRYW I BOBL IFANC YNG NGHYMRU .......... 4
BETH YW SENEDD IEUENCTID CYMRU? .......... 5
ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU .......... 7
SUT BETH YW SENEDD IEUENCTID CYMRU? .......... 9
BETH MAE'N EI OLYGU I FOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU? .......... 11
CYNRYCHIOLI DYFODOL CYMRU .......... 13
PA GYMORTH Y GALL AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU EI DDISGWYL GAN Y SENEDD? .......... 15
CYFRIFOLDEBAU BOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU .......... 17
PA YMRWYMIAD A DDISGWYLIR GAN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU? .......... 20
PWY ALL SEFYLL FEL YMGEISYDD YN YR ETHOLIAD? .......... 21
SEFYDLIADAU PARTNER .......... 23
PLEIDLEISIO YN ETHOLIADIADAU SENEDD IEUENCTID CYMRU .......... 25
SUT Y GALL YSGOLION A SEFYDLIADAU IEUENCTID GEFNOGI A HYRWYDDO ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU .......... 27



# PROFIAD UNIGRYW I BOBL IFANC YNG NGHYMRU

*O ddadlau a thrafod materion gyda'u cyfoedion, i gyflwyno araith yn Siambr y Senedd. Mae gwaith Senedd Ieuenctid Cymru yn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd unigryw i bobl ifanc yng Nghymru, rhwng 11 oed a 18 oed.*

Efallai mai cymryd rhan yn etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru fydd y tro cyntaf i rai pobl ifanc ddadlau a thrafod materion sydd o bwys iddynt gyda'u ffrindiau ac fel rhan o broses ddemocrataidd.

I eraill, efallai y byddai'n gyfle i fagu hyder a phrofiad wrth ddadlau a thynnu sylw at y materion hyn mewn ffordd a all wneud gwahaniaeth i ddyfodol pobl ifanc yng Nghymru.

> *"Mae wedi bod yn brofiad gwirioneddol anhygoel sydd wedi rhoi cymaint i ni i gyd, ac wedi helpu pobl ifanc ledled Cymru i ddod o hyd i'w llais"*
>
> ***Evan Burgess***
> ***Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, 2018-2021***

# BETH YW SENEDD IEUENCTID CYMRU?

*Sefydlwyd Senedd Ieuenctid Cymru (SIC) gyda syniadau a dyheadau pobl ifanc Cymru wrth wraidd ei datblygiad. Mae'n gyfle unigryw i bobl ifanc ledled Cymru gymryd rhan wrth arwain y drafodaeth ar faterion sydd o bwys iddynt.*

> *"Bydd y Senedd Ieuenctid yn rhoi llais democrataidd i bobl ifanc Cymru ar lefel genedlaethol ac yn eu grymuso i greu newid."*
>
> ***Elin Jones AS***
> ***Llywydd y Senedd***

O'r dechrau, mae pobl ifanc yng Nghymru wedi chwarae rhan allweddol gyda dros 5,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad i helpu i benderfynu ar nod, aelodaeth a gwaith Senedd Ieuenctid Cymru. Mae hyn wedi arwain at ffurfio Senedd Ieuenctid a etholwyd yn ddemocrataidd sy'n cynnwys 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru (ASIC)

> *"Dyma enghraifft wych o sut y gallwn gryfhau ein democratiaeth trwy gynnwys pobl ifanc yn ein trafodaethau - mae gennych safbwynt unigryw sy'n haeddu cael ei glywed a'i ystyried."*
>
> ***Mark Drakeford AS***
> ***Prif Weinidog Cymru***

Cynhaliwyd etholiadau cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru (SIC) yn 2018 ac yn dilyn ymgynghoriad pellach gyda phobl ifanc, ac areithiau angerddol gan bawb yn SIC yn Siambr y Senedd, dewiswyd *Sbwriel a Gwastraff Plastig*, *Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm* a *Chymorth Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl* fel y tri phrif bwnc y byddai SIC yn canolbwyntio arnynt.

Yn ystod ei thymor dwy flynedd mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi llwyddo i hyrwyddo llais pobl ifanc mewn perthynas â'r rhain a nifer o faterion eraill ar lwyfan cenedlaethol.

Gallwch ddarllen mwy am hanes ffurfio Senedd Ieuenctid Cymru a'r gwaith a wnaed gan ei haelodau etholedig cyntaf drwy fynd i **www.seneddieuenctid.cymru**.



# ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU

## *Cynhelir ail etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru fis Tachwedd 2021.*

Bydd yr etholiad hwn yn rhoi cyfle i bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed bleidleisio i ddewis Aelod o'r Senedd Ieuenctid ar gyfer eu hetholaeth. Gall unigolion hefyd gynnig eu henwau i sefyll mewn etholiad.

Bydd gan y 60 Aelod etholedig o Senedd Ieuenctid Cymru gyfle unigryw i sicrhau eu bod yn cael eu clywed ar lefel genedlaethol. Bydd yn eu galluogi i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n bwysig i bobl ifanc yng Nghymru heddiw, a thrafod y materion hynny.

> *"Fe wnes i sefyll i fod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru oherwydd fy mod i wedi ymrwymo i rymuso pobl ifanc a chynrychioli eu barn ar y llwyfan cenedlaethol ynglŷn â materion sydd o bwys iddynt."*
>
> ***Jonathon Dawes***
> ***Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, 2018-2021***

Drwy gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth pynciau llosg, bydd plant a phobl ifanc yn cael profiad uniongyrchol o sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio a'r effaith uniongyrchol y gall ei chael ar eu bywydau.

Y dyddiadau allweddol ar gyfer yr etholiad yw:

### COFRESTRU I BLEIDLEISIO

31 Mai hyd at 12 Tachwedd 2021

### ENWEBU YMGEISWYR

5 Gorffennaf 2021 hyd at 20 Medi 2021

### PLEIDLEISIO AR-LEIN

1 Tachwedd 2021 hyd at 22 Tachwedd 2021

# SUT BETH YW SENEDD IEUENCTID CYMRU?

## *Fel y Senedd, bydd gan Senedd Ieuenctid Cymru 60 o Aelodau.*

Bydd 40 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru'n cael eu hethol drwy system 'Cyntaf i'r Felin', gan ethol un person ifanc ar gyfer pob etholaeth etholiadol yng Nghymru.

Gall unrhyw berson ifanc sy'n byw yng Nghymru, neu sy'n cael addysg yng Nghymru, sydd rhwng 11 a 18 oed sefyll fel ymgeisydd yn un o'r 40 sedd etholaethol. Os yw person ifanc sy'n dymuno sefyll mewn etholiad yn cael ei addysg mewn etholaeth etholiadol sy'n wahanol i'w gyfeiriad cartref, gall ddewis pa etholaeth y mae'n dymuno sefyll ar ei chyfer. Gallwch ddod o hyd i'ch etholaeth drwy fynd i **www.senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/**.

Caiff yr 20 sedd arall eu hethol gan sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioli. Mae rhagor o wybodaeth am y broses sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau partner ar gael yn **www.seneddieuenctid.cymru**.

Bydd gan bob un o'r 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru statws cyfartal, a'r un rolau a chyfrifoldebau yn y Senedd.



# BETH MAE'N EI OLYGU I FOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU?

*Bydd y 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru i nodi, codi ymwybyddiaeth a thrafod materion sy'n bwysig iddynt.*

> *"Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn anfon neges glir i blant a phobl ifanc yng Nghymru eu bod yn ddinasyddion pwysig sydd â rhan i'w chwarae wrth lywodraethu ein cenedl."*
>
> **Sally Holland**
> **Comisiynydd Plant Cymru**

Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn:

- Ymgysylltu â phobl ifanc yn eu hardal.
- Penderfynu pa faterion sy'n flaenoriaeth i Senedd Ieuenctid Cymru.
- Mynegi eu barn am faterion y maent yn teimlo'n angerddol amdanynt. Mae gwleidyddiaeth pynciau llosg yn ganolog i waith Senedd Ieuenctid Cymru, nid yw'r Aelodau'n cael eu hethol i gynrychioli pleidiau gwleidyddol.
- Cael cyfle i gymryd rhan a siarad mewn digwyddiadau ac yn y cyfryngau yn ystod eu cyfnod.
- Cefnogi Aelodau eraill o Senedd Ieuenctid Cymru.
- Trafod materion gydag Aelodau o'r Senedd a Llywodraeth Cymru.
- Cyfrannu at waith pwyllgorau'r Senedd.

- Helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut y mae'r Senedd a Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio, a'r effaith y maen nhw'n ei chael ar fywydau pobl Cymru.
- Cwrdd â'i gilydd fel Senedd Ieuenctid Cymru yn ei chyfanrwydd dair gwaith yn ystod y tymor o ddwy flynedd.
- Cwrdd â'i gilydd ar lefel ranbarthol ac mewn digwyddiadau ymgysylltu bob 2-3 mis. Cwrdd naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir i drafod a datblygu'r materion sy'n flaenoriaeth i Aelodau'r Senedd Ieuenctid. Penderfynodd y Senedd Ieuenctid gyntaf weithio mewn pwyllgorau gwahanol yn canolbwyntio ar faterion penodol a chyfarfod yn rhithwir drwy Microsoft Teams neu Zoom yn ystod y flwyddyn olaf. Bydd yr Aelodau newydd sy'n cael eu hethol yn penderfynu sut yr hoffent drefnu eu hunain.
- Byddant yn cynrychioli pobl ifanc mewn ffordd gadarnhaol.



# CYNRYCHIOLI DYFODOL CYMRU

*Caiff Cymru ei rhannu'n 40 o ardaloedd llai o'r enw etholaethau. Bydd pobl ifanc yn gallu enwebu eu hunain i sefyll i gael eu hethol i gynrychioli'r etholaethau hyn.*

Trefnir yr etholaethau hyn yn bedair rhanbarth yng Nghymru. Bydd pobl ifanc yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithio gydag Aelodau eraill Senedd Ieuenctid Cymru o'u rhanbarth lleol.


> *"Mae'r profiad o gynrychioli pobl ifanc o bob rhan o'm hetholaeth a thu hwnt wedi bod yn anhygoel."*
>
> ***Maisy Evans***
> ***Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, 2018-2021***

## GOGLEDD CYMRU:

1. Ynys Môn
2. Arfon
3. Aberconwy
4. Gorllewin Clwyd
5. Dyffryn Clwyd
6. Delyn
7. Alun a Glannau Dyfrdwy
8. Wrecsam
9. De Clwyd
10. Dwyfor Meirionydd
11. Sir Drefaldwyn

## CANOLBARTH CYMRU:

12. Ceredigion
13. Brycheiniog a Sir Faesyfed
14. Preseli Sir Benfro
15. Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
16. Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
17. Llanelli




## DE-ORLLEWIN CYMRU:

18. Gŵyr
19. Gorllewin Abertawe
20. Dwyrain Abertawe
21. Castell-nedd
22. Aberafan
23. Ogwr
24. Pen-y-bont ar Ogwr
25. Rhondda
26. Cwm Cynon
27. Pontypridd
28. Bro Morgannwg

## DE DDWYRAIN CYMRU:

29. Gorllewin Caerdydd
30. Gogledd Caerdydd
31. Canol Caerdydd
32. De Caerdydd a Phenarth
33. Merthyr Tudful a Rhymni
34. Blaenau Gwent
35. Torfaen
36. Mynwy
37. Caerffili
38. Islwyn
39. Gorllewin Casnewydd
40. Dwyrain Casnewydd

# PA GYMORTH Y GALL AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU EI DDISGWYL GAN Y SENEDD?

## *Bydd y Senedd yn cefnogi holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn y ffyrdd canlynol:*

- Bydd aelod o staff o'r Senedd yn cael ei neilltuo i bob Aelod o'r Senedd Ieuenctid am y cyfnod y mae'n Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd yr aelod hwn o staff yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad, a bydd yn berson cyswllt ar gyfer unrhyw gymorth neu gyngor ynghylch Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth reolaidd am y newyddion diweddaraf, ac yn rhoi gwybodaeth am gyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar y gweill.
- Bydd y Senedd yn rhoi gwybodaeth i rieni neu warcheidwaid Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru am eu rôl yn Senedd Ieuenctid Cymru.
- Bydd y Senedd yn rhoi cymorth a gwybodaeth i ysgolion a mudiadau ieuenctid ynghylch eu rôl yn Senedd Ieuenctid Cymru.
- Bydd y Senedd yn talu unrhyw gostau Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru sy'n ymwneud â'u gwaith gyda Senedd Ieuenctid Cymru, megis:
    - Teithio awdurdodedig;
    - Llety;
    - Bwyd;
    - Y gost o fynd i weithgareddau a drefnir gan y Senedd.

- Bydd y Senedd yn cynnig opsiynau cludiant ar gyfer digwyddiadau Senedd Ieuenctid Cymru a gaiff eu trefnu gan y Senedd.
- Bydd y Senedd yn rhoi hyfforddiant perthnasol a defnyddiol ynghylch rôl y Senedd.
- Bydd y Senedd yn rhoi arweiniad a hyfforddiant clir ar bolisïau y bydd angen i holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru eu dilyn, gan gynnwys: cyfryngau cymdeithasol, cyfle cyfartal, diogelu ac amddiffyn plant.
- Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cael hyfforddiant ac arweiniad llawn ar unrhyw waith y gofynnir iddynt ei wneud ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru, gall hyn gynnwys: hyfforddiant ymchwil, siarad yn gyhoeddus, sgiliau dadlau, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, diogelu a mwy.
- Bydd y Senedd yn rhoi cymorth i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer eu datblygiad personol a datblygu eu rôl yn Senedd Ieuenctid Cymru i'w helpu i wneud y gorau y gallant.

# CYFRIFOLDEBAU BOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU

*Mae bod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn gyfle gwych i bobl ifanc rhwng 11 oed hyd at 18 oed ledled Cymru.*

> *“Rydym wedi cael cyfle i gwrdd â phobl na fyddem byth wedi cwrdd â nhw fel arall. Rydym wedi siarad ag Aelodau o'r Senedd a Gweinidogion ynghylch materion sy'n effeithio ar bobl ifanc ac, yn bwysicaf oll, rydym wedi cynrychioli pobl ifanc ar lefel genedlaethol."*
>
> ***Evan Burgess***
> ***Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, 2018-2021***

Bydd y Senedd yn disgwyl i holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ddilyn a chadw at y ‘Rheolau’ sef Cod Ymddygiad Senedd Ieuenctid Cymru. Os honnir bod Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru wedi torri'r Cod Ymddygiad, cynhelir ymchwiliad teg i’w ymddygiad ac unrhyw honiadau a wneir cyn penderfynu ar unrhyw gamau pellach.

Bydd fersiwn fanwl o'r ‘Rheolau’ n cael ei rhoi i holl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru unwaith y byddant wedi cael eu hethol.

Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn gyfrifol am:

- Fynd i holl gyfarfodydd swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru;
- Cyfathrebu â staff y Senedd ynghylch trefniadau cyfarfodydd a phresenoldeb.
- Sôn am unrhyw bryderon neu drafferthion wrth aelodau priodol o staff;

- Rhoi gwybod i staff y Senedd am unrhyw newidiadau i wybodaeth bersonol ac amgylchiadau;
- Parchu'r Gymraeg;
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn briodol ac o fewn canllawiau'r Senedd;
- Parchu didueddrwydd gwleidyddol Senedd Ieuenctid Cymru;
- Trin pobl ag urddas a pharch, yn enwedig y rhai a all fod o grwpiau sy'n agored i niwed neu warchodedig ar sail eu hil, hunaniaeth o ran rhywedd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu grefydd/cred. Mae hyn yn cynnwys cyd-Aelodau yn Senedd Ieuenctid Cymru, staff y Senedd ac unrhyw grwpiau/unigolion allanol rydych chi'n dod i gysylltiad â nhw;
- Cadw at y gyfraith bob amser a pheidio ag ymgymryd â gweithgareddau anghyfreithlon wrth gymryd rhan ym musnes Senedd Ieuenctid Cymru;
- Ymddwyn mewn ffordd nad yw'n dwyn anfri ar y Senedd.



# PA YMRWYMIAD A DDISGWYLIR GAN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU?

*Disgwylir i Aelodau’r Senedd Ieuenctid gymryd rhan yng ngweithgareddau Senedd Ieuenctid Cymru drwy gydol y cyfnod o ddwy flynedd.*

Bydd pob un o'r 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn cwrdd fel grŵp cyfan, fel arfer yn y Senedd, dair gwaith yn ystod eu tymor o ddwy flynedd.

Bydd Aelodau hefyd yn cyfarfod yn eu hardaloedd rhanbarthol, yn ogystal â chyfarfodydd rhithwir lle bo hynny'n bosibl. Bydd eu gwaith yn cynnwys cyfarfod a thrafod materion gydag Aelodau eraill o Senedd Ieuenctid Cymru ac ymgynghori â'r bobl ifanc y maent yn eu cynrychioli ar y materion a godwyd. Gwneir pob ymdrech i drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau ar adegau a dyddiadau a fydd yn galluogi cymaint o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru â phosibl i fod yn bresennol.

# PWY ALL SEFYLL FEL YMGEISYDD YN YR ETHOLIAD?

*Gall unrhyw berson ifanc sy'n byw yng Nghymru, neu sy'n cael addysg yng Nghymru, enwebu ei hun yn ymgeisydd ar gyfer un o'r 40 sedd etholaethol. Fodd bynnag, bydd angen bod o leiaf 11 oed ac 17 oed ar y mwyaf ar ddiwrnod olaf yr etholiad (22 Tachwedd 2021).*

Gall pobl ifanc sy'n gymwys i sefyll yn yr etholiad sefyll fel ymgeisydd ar gyfer un o'r 40 sedd etholaeth. Os yw person ifanc sy'n dymuno sefyll mewn etholiad yn cael ei addysg mewn etholaeth etholiadol sy'n wahanol i'w gyfeiriad cartref, gall ddewis pa etholaeth y mae'n dymuno sefyll ar ei chyfer. Mae'n bosibl gwirio eich etholaeth drwy fynd i **senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd**.

Gall person ifanc hefyd gael ei ethol fel cynrychiolydd gan sefydliad partner swyddogol. Mae'n bosibl i berson ifanc sefyll fel ymgeisydd i'w ethol yn ei etholaeth ac i sefydliad partner ar yr un pryd. Os yw person ifanc yn ennill y mwyafrif o bleidleisiau ar gyfer un o'r 40 sedd etholaethol, ac mai dyma'r ymgeisydd dewisol a gaiff ei ethol gan sefydliad partner swyddogol, y person ifanc fydd yn dewis pa sedd y mae am ei chael. Bydd y sedd a wrthodir yn cael ei chynnig i'r person ifanc a ddaeth yn ail o ran nifer y pleidleisiau yn yr etholaeth honno, neu'n cael ei chynnig i sefydliad partner swyddogol y Senedd Ieuenctid a fydd, wedyn, yn ethol person ifanc arall.

I sefyll fel ymgeisydd ar gyfer sedd yn yr etholaeth, bydd angen i'r person ifanc lenwi ffurflen gais yn **www.seneddieuenctid.cymru**. Bydd y ceisiadau'n agor ar 05 Gorffennaf 2021 ac yn cau ar 20 Medi 2021.

Bydd y ffurflen yn cymryd tua 15 munud i'w chwblhau. Rhaid i ymgeiswyr ddarllen y cyflwyniad, cwblhau'r blychau perthnasol sy'n nodi eu bod yn cadarnhau bod y wybodaeth y maent wedi'i chyflwyno yn gywir, a chytuno y byddant yn cydymffurfio â rheolau'r etholiad. Bydd angen caniatâd rhieni hefyd i wneud cais a llenwi’r ffurflen.

Bydd angen i bobl ifanc roi'r wybodaeth ganlynol i wneud cais:

- Enw;
- Cyfeiriad a chod post;
- Cyfeiriad e-bost;
- Dyddiad geni;
- Ffurflen gydraddoldeb.

Bydd angen i ymgeiswyr roi bywgraffiad byr ohonynt eu hunain. Ni ddylai hyn fod yn hirach na 200 gair. Dylai nodi pam y byddai'r ymgeisydd yn Aelod da o Senedd Ieuenctid Cymru a'r tri phwnc sydd bwysicaf iddi/iddo. Mae angen i'r materion fod yn bethau y mae gan y Senedd bwerau drostynt megis iechyd, y Gymraeg, darpariaethau ieuenctid, yr amgylchedd ac ati. Ceir rhagor o wybodaeth am bwerau'r Senedd ar wefan y Senedd **https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ein-rol/pwerau/**.

Unwaith y bydd pobl ifanc wedi cwblhau eu ffurflen gais ar-lein yn llwyddiannus ac ar ôl gwirio eu gwybodaeth, anfonir Pecyn Gwybodaeth atynt. Bydd hyn yn sôn wrthynt am bopeth y mae angen iddynt ei wybod ynghylch sefyll mewn etholiad i Senedd Ieuenctid Cymru.

Bydd yr 20 sedd arall yn cael eu hethol gan sefydliadau partner.

# SEFYDLIADAU PARTNER

*Caiff 20 o'r 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru eu hethol gan sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioli.*

Gall unrhyw fudiad, o unrhyw faint, o unrhyw ran o Gymru, wneud cais i fod yn sefydliad partner.

> *"Mae'r profiad wedi cael effaith fawr ar ein cynrychiolwyr a'u dyfodol. Mae cymaint o fanteision o ran gwybodaeth, sgiliau, profiad ac ymwybyddiaeth. Faint o bobl ifanc all ddweud eu bod wedi sefyll i fyny yn y Senedd neu fynychu cyfarfodydd gweinidogol a thrafod yn y Siambr? Mae wir yn gyfle anhygoel a fydd yn cefnogi eu llwybrau addysg/gyrfa wrth edrych tua'r dyfodol."*
>
> ***Anabledd Dysgu Cymru***
> ***Sefydliad Partner Senedd Ieuenctid Cymru, 2018-2021***

Bydd angen i fudiadau sydd am ddod yn bartner swyddogol Senedd Ieuenctid Cymru wneud cais ysgrifenedig erbyn 28 Mehefin 2021, a byddant yn cael eu hystyried yn erbyn meini prawf penodol.

Mae canllaw ar ddod yn sefydliad partner i Senedd Ieuenctid Cymru a ffurflen gais ar gael yn **www.seneddieuenctid.cymru**



# PLEIDLEISIO YN ETHOLIADIADAU SENEDD IEUENCTID CYMRU

*Mae'r holl bobl ifanc rhwng 11 a hyd at 18 oed sy'n byw neu'n cael eu haddysg yng Nghymru yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru ond rhaid iddynt gofrestru i bleidleisio ymlaen llaw.*

Gallwch gofrestru i bleidleisio rhwng 31 Mai a 12 Tachwedd 2021. Bydd pobl ifanc yn gallu cofrestru i bleidleisio yn **www.seneddieuenctid.cymru**.

Nid oes angen i rai oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru 2018 wneud hynny eto. Byddent yn derbyn e-bost ar 03 Mehefin yn cadarnhau eu bod yn parhau i fod wedi cofrestru i bleidleisio. Byddent yn derbyn cod pleidleisio a chyfarwyddiadau trwy e-bost ar 01 Tachwedd.

Dim ond ychydig funudau y bydd yn eu cymryd i gofrestru i bleidleisio, a bydd angen y wybodaeth ganlynol:

- Enw;
- Cod post (cartref neu ysgol);
- Cyfeiriad e-bost;
- Dyddiad Geni.

Ar ôl cofrestru ar-lein, anfonir e-bost yn gofyn i'r person ifanc gadarnhau'r manylion a dilysu ei gofrestriad. Os nad yw hyn i'w weld yn eich blwch derbyn, gwiriwch eich post 'Junk'.

Bydd pleidleisio ar gyfer yr etholiad yn agor ar 1 Tachwedd ac yn cau am 12pm ar 22 Tachwedd 2021.

Bydd y rhai sydd wedi cofrestru i bleidleisio erbyn 29 Hydref yn cael neges e-bost gyda'r cod pleidleisio a chyfarwyddiadau ar 1 Tachwedd. Bydd y rhai sy'n cofrestru i bleidleisio rhwng 29 Hydref a 12 Tachwedd yn cael eu cod pleidleisio ar 15 Tachwedd.

Bydd angen i'r bobl ifanc sydd wedi cofrestru i bleidleisio gael eu cod pleidleisio pan fyddant yn bwrw eu pleidlais. Mae hyn er mwyn sicrhau mai dim ond un cyfle sydd gan bawb sydd wedi cofrestru i fwrw eu pleidlais dros yr ymgeisydd o'u dewis.

Bydd bywgraffiadau'r holl ymgeiswyr ar gyfer pob etholaeth ar gael yn **www.seneddieuenctid.cymru** rhwng 18 Hydref a 22 Tachwedd 2021.

# SUT Y GALL YSGOLION A SEFYDLIADAU IEUENCTID GEFNOGI A HYRWYDDO ETHOLIAD SENEDD IEUENCTID CYMRU

*Mae'r sail ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru ar gael yn erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).*

Mae hwn yn nodi hawl plant a phobl ifanc i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar unrhyw fater sy'n effeithio arnynt.

Mae hyn hefyd yn sail i egwyddorion allweddol gwaith ieuenctid yng Nghymru ac mae'n cael ei adlewyrchu'n glir yn y cwricwlwm newydd i Gymru sydd â'r nod o ddatblygu pobl ifanc i fod yn  ddinasyddion Cymru a'r byd sy'n wybodus o ran moeseg. O ganlyniad, mae cefnogi a hyrwyddo Senedd Ieuenctid Cymru yn berthnasol, ac mae'n cynnig profiadau unigryw i bobl ifanc gymryd rhan yn yr ystafell ddosbarth, gartref neu fel rhan o sefydliad ieuenctid.

> *"Mae bod yn rhan o Senedd Ieuenctid Cymru wedi helpu fy natblygiad personol yn fawr iawn yn ogystal ag ysgogi fy ffrindiau a phobl ifanc rwy'n eu hadnabod i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth."*
>
> ***Talulah Thomas***
> ***Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, 2018-2021***

Er mwyn annog cymaint o bobl ifanc â phosibl i gymryd rhan yng ngwaith Senedd Ieuenctid Cymru, mae tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd yn croesawu cefnogaeth  ysgolion, colegau a sefydliadau ieuenctid ledled Cymru.

Ein gobaith yw y bydd pobl ifanc o wahanol oedrannau, rhywiau, cefndiroedd cymdeithasol-economaidd, galluoedd ac ethnigrwydd, o bob rhan o Gymru, yn cymryd rhan yng ngwaith Senedd Ieuenctid Cymru mewn rhyw ffordd, naill ai trwy gofrestru i bleidleisio, drwy sefyll mewn etholiad, drwy bleidleisio yn ystod yr etholiad, neu drwy gyfrannu at waith Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ar faterion sy'n bwysig iddynt.

Mae tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau, gweithdai i bobl ifanc a sesiynau hyfforddi i weithwyr proffesiynol i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo etholiad Senedd Ieuenctid Cymru. Mae manylion llawn yr adnoddau a'r wybodaeth i gadw lle ar gyfer yr adnoddau, y gweithdai a'r sesiynau hyfforddi am ddim ar gael yn **www.seneddieuenctid.cymru** neu gallwch e-bostio **helo@seneddieuenctid.cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

Mae llawer o ffyrdd ymarferol y gall ysgolion, colegau a sefydliadau ieuenctid gefnogi Senedd Ieuenctid Cymru, gan gynnwys:

- Cofrestru i gael pecyn marchnata etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru
- Defnyddio ein cynlluniau sesiynau Senedd Ieuenctid Cymru neu gofrestru i fod yn rhan o weithdy fel rhan o wasanaeth â thema dinasyddion neu wersi i godi ymwybyddiaeth am waith y Senedd a Senedd Ieuenctid Cymru;
- Defnyddio cynlluniau sesiynau Senedd Ieuenctid Cymru neu gofrestru i fod yn rhan o weithgaredd sefydliad ieuenctid;
- Cofrestru i fod yn rhan o sesiwn hyfforddi cyfoedion ar gyfer aelodau eich cyngor ysgol neu fforwm ieuenctid;
- Hyrwyddo Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfryngau cymdeithasol neu mewn cylchlythyrau ac ar wefannau;
- Annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru, caniatáu amser yn ystod amser cofrestru, gwersi perthnasol, neu weithgaredd clwb i bobl ifanc rhwng 11 ac 18 mlwydd oed i gofrestru i bleidleisio;

- Annog dadleuon a thrafodaethau dan arweiniad pobl ifanc ar faterion sy'n bwysig iddynt a chyfrannu at ymgynghoriad Senedd Ieuenctid Cymru ar Faterion o Bwys;
- Annog pobl ifanc i sefyll yn yr etholiad i ddod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru a chynnig cefnogaeth i'r bobl ifanc yn ystod y broses ymgeisio;
- Cefnogi pobl ifanc sy'n sefyll yn yr etholiad yn ystod y cyfnod 3 wythnos o bleidleisio, trwy eu helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc eraill mewn ysgol neu fudiad ieuenctid;
- Caniatáu amser yn ystod gwersi, amser cofrestru neu weithgaredd clwb ieuenctid i bobl ifanc ddarllen am yr ymgeiswyr ac i bleidleisio;
- Rhannu gwybodaeth am Senedd Ieuenctid Cymru o fewn eich rhwydweithiau eich hun;
- Annog pobl ifanc i fynd i ddigwyddiadau a drefnir gan Senedd Ieuenctid Cymru;
- Yn dilyn yr etholiad, cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau ymgynghori Senedd Ieuenctid Cymru i godi ymwybyddiaeth o faterion a ddewiswyd gan bobl ifanc.

DY
**LAIS.**

DY
**DDEWIS.**

DY
**DDYFODOL.**

GWEFAN: **WWW.SENEDDIEUENCTID.CYMRU**

INSTAGRAM: **SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

FACEBOOK: **SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

TWITTER: **SENEDDIEUENCTID**